Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Myfyrdodau ar fireinio dysgu o bell mewn ysgolion arbennig a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)

Mehefin 2021



## Cyd-destun

Mae ysgolion arbennig ac UCDau wedi datblygu a mireinio eu dulliau o ddysgu o bell yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rhannodd dwy ysgol arbennig a gynhelir a thair UCD eu profiadau yn y meysydd canlynol:

- **prosesau monitro** a ddefnyddiwyd i fyfyrio ar eu darpariaeth dysgu o bell,
- yr **heriau** a wynebwyd
- y **newidiadau** a wnaed

Trwy rannu sut aethant ati i fyfyrio ar ddysgu o bell a'i fireinio, ystyriodd yr ysgolion a'r UCDau peilot elfennau o weithgareddau digidol, ynghyd â gweithgareddau nad ydynt yn rhai digidol. Bu iddynt hefyd fyfyrio ar eu dulliau o addysgu a dysgu.

Isod mae crynodeb o'r negeseuon allweddol, ynghyd â'r cameos perthnasol, i ddangos y gwahanol ddulliau o addysgu a dysgu a fabwysiadwyd gan yr ysgolion hyn a'r UCDau. Buom yn gweithio gyda'r ysgolion arbennig a'r UCDau i ddatblygu awgrymiadau sector-benodol i arweinwyr eraill eu hystyried wrth fyfyrio ar eu dysgu o bell eu hunain a'i fireinio (Atodiad 1).

## Dysgu ac addysgu

### Prosesau monitro

Dywed arweinwyr fod prosesau monitro yn datblygu'n hyblyg i adlewyrchu'r newidiadau yng nghyd-destunau'r cwricwlwm, dysgu ac addysgu. Er mai'r prif ffocws yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf oedd lles, esboniodd nifer ohonynt eu bod, ar gyfer y cyfnod clo cenedlaethol yng Ngwanwyn 2021, wedi defnyddio arolygon rhieni, disgyblion a staff i gael adborth ar ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dysgu o bell. Mae'r dull hwn wedi llywio gwelliannau a newidiadau, fel cyflwyno gweithgareddau mwy ymarferol ac ailstrwythuro sesiynau.

Mae pob arweinydd yn cadarnhau eu bod wedi parhau i fonitro ansawdd yr addysgu ac ymgysylltiad disgyblion yn ystod dysgu o bell gan ddefnyddio'r un dulliau â'u proses hunanwerthuso arferol. Fodd bynnag, dywedodd pob un ohonynt fod y trafodaethau agored a gonest a gafwyd gydag athrawon a dysgwyr yn hynod werthfawr er mwyn casglu adborth a syniadau penodol am ddysgu o bell. Nododd arweinwyr fod gofyn i athrawon roi cynnig ar ddulliau newydd heb ofni cael eu barnu yn caniatáu iddynt osod eu targedau eu hunain. Cadarnhaodd yr arweinwyr eu bod yn annog eu staff i fyfyrio ar y dulliau hyn ac i ymateb i adborth gan ddisgyblion, rhieni a'u cydweithwyr i wella'r profiad dysgu.

Mewn un ysgol arbennig, mae arweinwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar-lein, yn edrych ar waith wedi'i uwchlwytho gan ddisgyblion, ac yn monitro adran sgwrsio gwersi byw. Mae'r uwch dîm arwain yn monitro ac yn darparu adborth ar gynlluniau wedi'u uwchlwytho a'r dystiolaeth o weithgareddau dysgu o bell. Hefyd,

mae cyfarfodydd adrannol yn rhoi cyfleoedd i staff drafod a gwerthuso darpariaeth dysgu o bell yr ysgol.

Fe wnaeth arweinwyr mewn un UCD fonitro Google classrooms yn ddyddiol yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf a daethant i'r casgliad fod ansawdd y dysgu yn amrywio'n ormodol.  O ganlyniad, rhoddwyd hyfforddiant i staff ynghylch gwahanol blatfformau dysgu ar-lein i helpu sicrhau y gallai disgyblion gael mynediad at y dysgu.

Roedd angen hyfforddiant pellach ddechrau tymor y gwanwyn 2021 i fodelu arfer orau.  Er enghraifft, sicrhaodd athrawon fod gweithgareddau a sleidiau'r tasgau yn hygyrch, wedi'u strwythuro a'u bod yn apelio at ddisgyblion.  Roedd hyn yn golygu gosod meini prawf llwyddiant clir, gan fod disgyblion yn gyfarwydd â nhw yn eu hystafell ddosbarth arferol

Cydnabyddodd arweinwyr mewn UCDau y gallai fod yn arbennig o anodd monitro lefel ymgysylltiad eu disgyblion, ond bod hynny'n llunio rhan o'r wybodaeth hanfodol ar gyfer gwybod pa mor effeithiol yw'r cynnig dysgu o bell.  Mae'r strategaethau a ddatblygwyd i wneud hyn yn cynnwys monitro cyfraddau mewngofnodi i blatfformau dysgu a gwasanaethau perthnasol ar y we, a chraffu ar ansawdd gwaith disgyblion. Defnyddiodd un UCD y wybodaeth hon i nodi mai'r grŵp ieuengaf o ddisgyblion oedd â'r ffigurau isaf o ran mewngofnodi ac ymgysylltu ar-lein.  Fodd bynnag, roedd y grŵp hwn o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn tasgau dysgu ar bapur yn dda, a chadarnhawyd hyn trwy alwadau lles staff a theuluoedd.

Cadarnhaodd arweinwyr mewn un UCD fod disgyblion ag anawsterau dysgu, fel mudandod dethol neu bryderon cymdeithasol, yn ymgysylltu'n dda ar y cyfan â gwersi byw a dysgu trwy blatfformau ar-lein.  Mae arweinwyr yn yr UCD o'r farn bod y system hon yn lleihau lefelau pryder disgyblion ac yn eu galluogi i ymgysylltu mewn ffordd sy'n gyfforddus iddynt.  Dywedodd y disgyblion wrth arweinwyr eu bod yn gyfarwydd ac yn gyfforddus wrth ddefnyddio'r ddarpariaeth (neu 'adran') sgwrsio ac felly'n cyfrannu'n fwy hyderus gan ddefnyddio'r dull hwn. Dywedodd arweinwyr fod disgyblion yn ymgysylltu'n hyderus â'r fforymau ar-lein gan eu bod fel y llwyfannau gêmau y maent yn eu defnyddio i gymdeithasu â'u cyfoedion. Mae'r UCD yn ymgysylltu â disgyblion a'u rhieni a'u gofalwyr yn rheolaidd i fonitro'r ddarpariaeth hon. Maent hefyd yn darparu cydbwysedd o weithgareddau wyneb yn wyneb priodol i gefnogi'r disgyblion hyn i ailintegreiddio'n llwyddiannus i'r ystafell ddosbarth

**Newidiadau:**

Dywed arweinwyr mai newid pwysig rhwng y cyfnodau clo cenedlaethol cyntaf a'r ail yw'r addysg a'r hyfforddiant sydd wedi digwydd i ddatblygu a gwella medrau cymhwysedd digidol disgyblion a staff. O ganlyniad, mae arweinwyr yn cadarnhau eu bod wedi adeiladu ar arfer effeithiol o fewn yr ysgol neu'r UCD a'r tu allan iddi, i wneud newidiadau a gwella cynnig y cwricwlwm dysgu o bell, ansawdd y dysgu a'r addysgu, a'r cymorth i deuluoedd.

Mae nifer o arweinwyr yn nodi eu bod, yn sgil arbrofi â gwahanol blatfformau ar gyfer dysgu o bell, naill ai wedi symud tuag at un platfform neu wasanaeth gwe i leihau unrhyw ddryswch i ddisgyblion, neu wedi parhau â gwahanol wasanaethau gwe i fodloni anghenion dysgu unigol y disgyblion yn well. Hefyd, maent yn esbonio sut mae cynnig y cwricwlwm, yn y cyfnod clo cenedlaethol yng ngwanwyn 2021, yr un peth ar y safle ag ar gyfer dysgu o bell, gyda'r pecynnau dysgu copi caled yn cyfateb i weithgareddau ar-lein ac yn eu hategu.

Ar draws y ddau sector, cadarnhaodd arweinwyr fod anghenion yn arwain y cwricwlwm o bell, gyda ffocws cryf ar ddatblygu'r medrau a nodwyd yng nghynllun addysg unigol pob disgybl. Lle y bo'n briodol, caiff targedau eu diwygio i adlewyrchu'r cyfle i ddatblygu medrau ychwanegol gartref.

Yn dilyn adborth o'r cyfnod clo cenedlaethol cyntaf, mae staff mewn un ysgol arbennig wedi datblygu strwythur ar gyfer y diwrnod i helpu disgyblion i ddatblygu trefn ar gyfer gweithio o gartref. Lle y bo'n addas, caiff disgwyliadau wedi'u gwahaniaethu eu gosod ar gyfer deilliannau dysgu ac addysgu yn y gwahanol grwpiau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a chyfnodau allweddol. Mae amser myfyrio yn cael ei gynnwys mewn sesiynau dysgu ac addysgu ar bob lefel. Mae'r amser myfyrio hwn yn gyfle i ddisgyblion roi adborth ac i staff fonitro a mireinio'r gweithgareddau a'u dulliau o addysgu.

Mewn un UCD, mae arolwg o rieni yn cydnabod y gallai cyfnodau hir o weithgareddau sgrin fod yn niweidiol i les eu plant. Roedd hyn yn broblem benodol i ddysgwyr iau. Felly, trwy e-bost neu gopi caled, cyflwynodd yr UCD dasgau mwy ymarferol er mwyn cynnig cydbwysedd. Er enghraifft, fel rhan o gynllun yr UCD i hybu cyffro, ymgysylltiad a chyfranogiad ym mhob maes dysgu, cafodd pob plentyn alwad ffôn gan bennaeth y ganolfan yn cyfleu neges gan athro'r dosbarth fod 'neges arbennig' ar ei ffordd! Gofynnwyd i'r disgyblion edrych ar blatfform dysgu'r UCD bob dydd ac aros am y neges, gan nad oedd unrhyw un gwybod beth oedd y 'neges' na sut y byddai'n cyrraedd. Creodd y dull hwn gyffro a chwilfrydedd yn syth, i ddisgyblion a rhieni. Cyrhaeddodd yr amlen 'arbennig' yn cynnwys amrywiaeth o heriau yn y neges. Bu'n rhaid i ddisgyblion ddatrys y posau er mwyn dod i wybod beth oedd eu pwnc nesaf, ac ymatebodd dysgwyr a'u teuluoedd yn dda i hyn.

Mae un ysgol arbennig wedi cydweithio â darparwyr eraill i ddatblygu'i darpariaeth dysgu o bell i'w dysgwyr 14-19 oed. Maent yn cymryd rhan mewn prosiect cynhwysiant gydag ysgol brif ffrwd leol gan astudio ar gyfer cymwysterau TGAU ac UG, a dilynant gymwysterau galwedigaethol yn y coleg addysg bellach lleol gyda dysgwyr o nifer o ysgolion prif ffrwd.

Mae dull dysgu o bell wedi galluogi'r ddarpariaeth hon i barhau i weithio'n dda. Mae gan bob disgybl gynllun gweithredu dysgu o bell. Mae defnyddio platfformau dysgu digidol addas a hyfforddi disgyblion i'w defnyddio'n hyderus wedi bod yn allweddol i hyn. Mae cymorth ychwanegol yn cynnwys benthyca dyfeisiau ar gyfer dysgu gartref, neilltuo mentoriaid, sesiynau tiwtorial fideo ar-lein yn unigol ac i grwpiau, a dod â dysgwyr i'r ysgol ar gyfer sesiynau dal i fyny dwys. Mae'r dull hwn wedi galluogi parhad a deilliannau ansawdd uchel, gan gynnwys graddau gwell na'r disgwyl mewn asesiadau TGAU dan reolaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Ers y cyfnod clo cyntaf, mae un ffederasiwn o ysgolion arbennig wedi canolbwyntio'n fwy o lawer ar gymorth i rieni. Darparwyd fideos gan aelodau staff a dogfennau cymorth i rieni er mwyn iddynt gefnogi lles a dysgu'u plant yn well. Mae'r ysgol wedi creu canllawiau digidol i rieni ar agweddau fel sut i fynd at wefannau a sesiynau amrywiol, ac mae safle cymorth a gwybodaeth digidol newydd ar y wefan. Yn ogystal, gall rhieni gysylltu â'r ysgol i gael cymorth digidol ar unrhyw adeg, trwy gyfeiriad e-bost uniongyrchol newydd a grewyd. Hefyd, darparwyd cymorth i rieni allu mynd at blatfform addas ar gyfer yr adolygiad blynyddol o ddatganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) eu plentyn.

**Heriau**

Mae arweinwyr ym mhob lleoliad yn cadarnhau mai mynd i'r afael â lles disgyblion fu eu prif flaenoriaeth yn ystod y cyfnodau clo lleol a chenedlaethol niferus. Maent yn disgrifio sut maen nhw wedi ymdrechu i aros ar agor i gynifer o ddisgyblion â phosibl drwy gydol y cyfnod hwn i gynnig darpariaeth wyneb yn wyneb, o fewn canllawiau Llywodraeth Cymru a chanllawiau iechyd a diogelwch. Maent yn nodi sut mae staff wedi datblygu dysgu o bell ar-lein, gan gynnwys platfformau digidol ar gyfer gweithgareddau dysgu cydamserol ac anghydamserol, ynghyd â chopïau caled o becynnau dysgu pwrpasol i ddisgyblion penodol. Mae staff wedi cyflawni hyn ar yr un pryd â chynnig darpariaeth addysgu ar y safle. Ym mhob achos, mae arweinwyr yn nodi bod darparu addysgu mewn ffurfiau amrywiol yn ystod y cyfnod hwn, gydag amrywiaeth o strategaethau i fynd i'r afael yn llwyddiannus ag anghenion pob disgybl, wedi bod yn feichus.

Mae arweinwyr ym mhob lleoliad yn cadarnhau bod heriau'n parhau o ran dysgu o bell i fynd i'r afael ag anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion bregus, fel disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol a chymhleth y mae angen iddynt ddefnyddio dyfeisiau technoleg gynorthwyol. Mae grwpiau eraill yn cynnwys disgyblion nad ydynt yn gallu cael at ddyfeisiau digidol oherwydd pryderon diogelu, disgyblion sy'n cael trafferth gwahaniaethu rhwng y cartref a'r ysgol, a disgyblion iau neu ddisgyblion heb fedrau dysgu ac ymddygiad addas.

Ar draws y ddau sector, dywed arweinwyr eu bod yn wynebu'n barhaus her neilltuo staff ac amser ac adnoddau ychwanegol i hwyluso rôl rheini wrth gefnogi anghenion dysgu ychwanegol penodol eu plant yn ystod dysgu o bell.  Maent yn cadarnhau eu bod yn wynebu heriau tebyg wrth gyd-drefnu'r amrywiaeth o gyfarfodydd tîm amlasiantaeth a sicrhau mynediad at wasanaethau arbenigol, y mae eu staff eu hunain bellach yn eu cyflwyno, mewn ychydig o achosion.

## Atodiad 1: Ysgogiadau i'r sectorau arbennig a gynhelir ac UCDau eu hystyried wrth fyfyrio ar ddysgu o bell a'i fireinio

### Y cwricwlwm a dysgu ac addysgu

| | | |
|---|---|---|
| 1. Beth yw ein heriau mwyaf a sut yr ydym yn goresgyn y rhain? | 2. Sut rydyn ni'n gwybod bod ein disgyblion yn ddiogel ar-lein a pha fesurau sydd ar waith i gadw dyfeisiau disgyblion yn ddiogel? | 3. Pa drefniadau a chymorth rydym yn eu darparu i helpu i gynnal ymgysylltiad rhieni â dysgu eu plentyn? |
| 4. Sut ydym ni'n darparu dysgu ac addysgu o ansawdd da i bob grŵp o ddisgyblion yn ystod cyfnodau o ddysgu cyfunol / dysgu o bell? (*Cynnig y cwricwlwm – cryfderau/cyfyngiadau*) | 5. Sut mae ein hymagwedd at ddysgu o bell wedi newid dros gyfnod? (*Y rhesymau dros hyn a'r broses newid*) | 6. Beth yw'r heriau penodol o fewn ein lleoliad i gyflwyno gwersi byw yn ddiogel ac yn effeithiol?<br>Pan rydym yn cynnig gwersi byw, sut ydym ni'n rhoi adborth i ddisgyblion ac i ni'n hunain? |

### Prosesau monitro

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7. Pa mor dda rydym ni'n monitro'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu ac addysgu, gan gynnwys ymgysylltiad disgyblion, yn ystod dysgu o bell? Sut mae'r broses fonitro hon wedi newid dros gyfnod? | 8. Sut ydym ni'n datblygu ac yn monitro medrau annibynnol disgyblion a'u medrau dysgu i ddysgu wrth gymryd rhan mewn dysgu o bell? | 9. Sut ydym ni'n sicrhau bod disgyblion yn ymgysylltu â chymheiriaid yn ystod profiadau dysgu o bell? | 10. Sut gwnaethom ni geisio barn rhanddeiliaid (rhieni, timau aml-asiantaeth ac awdurdodau gosod) am y ddarpariaeth a wneir ar gyfer dysgu? Beth wnaethom ni ddysgu o hyn a sut y bu i ni ddefnyddio'r wybodaeth hon? |

## Cefnogi arfer broffesiynol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 11. Sut rydym ni'n helpu staff addysgu i reoli'u baich gwaith ar gyfer cyflwyno darpariaeth amlfodd a mwy o ddarpariaeth dysgu o bell - gan gynnwys gweithgareddau ar y safle, ar-lein a gweithgareddau nad ydynt yn rhai digidol? | 12. Sut mae ein staff addysgu a'n staff cymorth lles yn cael eu defnyddio i sicrhau bod eu gwaith yn cael yr effaith fwyaf posibl? | 13. Pa mor dda y mae ein staff addysgu yn cydweithredu i ddarparu profiadau dysgu o bell? Sut ydym ni'n gwybod? | 14. A ydym ni wedi elwa o rannu arfer effeithiol gyda darparwyr eraill? A oes gennym arfer rydym ni wedi'i rhannu neu a fyddai'n fuddiol, yn ein barn ni, i ddarparwyr eraill? | 15. Sut ydym ni wedi addasu dysgu proffesiynol yn ystod y cyfnod hwn? A ydym ni wedi nodi gofynion penodol ar gyfer dysgu proffesiynol a darpariaeth dysgu o bell? Os felly, beth yw'r rhain a sut rydym ni wedi mynd i'r afael â'r angen hwn? |